Cofnodion Cyfarfod CCG 28.4.22

Cynhaliwyd yn Neuadd Cymuned Glantwymyn ac ar-lein

*19:353: Presennol*: Iwan Jones (Cadeirydd am y noson) Deryck Lewis, Bedwyr Fychan, Gareth Owen, William Owen, Huw Williams, Aeron Pughe, Gwenfair Davies, Gwen Lloyd, Aled Griffiths, Rhodri Wigley, Glyn Jones, Sandra Evans (Clerc)

*19:354: Ymddiheuriadau*: Gareth Wyn Jones, (Cadeirydd), Elwyn Vaughan, Paul Hughes,

*19:355: Datganiadau o ddiddordeb*: Dim

19:356: *Cyflwyno a derbyn cofnodion Mawrth 2022* Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Huw Williams. Fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies.

- *19:357: Adroddiad y Clerc*: *Cynhaliwyd cyfarfod am eglwys Darowen yn ddiweddar gyda chynrychiolaeth helaeth ac amrywiol o'r gymuned yn mynychu. Cafwyd 26 o bobl yn un llais o blaid cadw'r eglwys ar agor a mynegwyd llawer o sylwadau positif. Cynhelir cyfarfod pellach y mis nesaf lle bydd y Parch. Miriam Beecroft a chynrychiolwyr o Fangor yn mynychu.*
- Yn dilyn cyfarfod rhwng Mr Brian Roberts, Corris, Gareth Jones, Dafydd Evans a'r Clerc yn Llanwrin, cafwyd *Cafwyd amcan bris gan Brian Roberts Corris am £3874.00 i atgyweirio'r ddau fwa ym mynwent Llanwrin*

19:357: Materion yn codi o'r Cofnodion Nodwyd y dylid cywiro enw'r Cynghorydd Deryck Lewis a newid Mudiad Ysgolion Meithrin yn Fudiad Meithrin

19:358: Croesawu Cynghorwyr – Llongyfarchwyd y Cynghorwyr chroesawyd y Cynghorydd Glyn Jones am y tro cyntaf. Arwyddwyd ffurflenni Datganiad Derbyn Swydd a derbyniwyd y Cod Ymddygiad gan bawb oedd yn bresennol. Bydd pawb oedd yn absennol wedi cael copi electronig ac anfonir copi drwy'r post os bydd angen.

*19:359: Eglwysi Darowen a Llanwrin –*

- *Yn dilyn cael amcanbris gan Brian Roberts Corris am £3874.00 i atgyweirio'r ddau fwa ym mynwent Llanwrin penderfynwyd derbyn y cynnig ar yr amod y bydd y gwaith yn cael ei gychwyn yn fuan. Gofynnir am wneud y gwaith mewn dau gam achos pryderon diogelwch. Bydd Huw Williams yn trefnu hyn.*
- *Cysylltir â'r Parch. Miriam Beecroft i ofyn am gyfraniad gan yr eglwys. Cynigiwyd hyn gan Rhodri Wigley ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths.*
- *Bydd y Clerc yn parhau i geisio dod o hyd i ffynonellau ariannol gan gynnwys CADW.*
- *Mae'r broses o ddod o hyd i gynllun claddedigaethau mynwentydd Darowen a Llanwrin yn parhau*
- *Penderfynwyd cadarnhau ymhellach berchnogaeth a chyfrifoldeb dros eglwys Llanwrin a Darowen. Trafodwyd a ddylid cyflogi trwne i ymchwilio hefyd. Am y tro anfonir y dogfennau perthnasol eto at y Cynghorwyr a chael eu barn.*
- *Er cyfleuster gofynnir i Bwyllgor Neuadd Glantwymyn a fydd modd cadw dogfennau'r Cyngor a'r Filing Cabinaet yn ganolog yn y neuadd*
- *Mae'r broses i drefnu tocio'r goeden yn parhau.*
- *Bydd Gareth Owen yn rhoi tâp i rybuddio'r cyhoedd am y bwa peryglus yn Llanwrin*

19:360: Diffibrilwyr -Cafwyd diweddariad a chasglwyd gwybodaeth am enwau cyswllt i'w rhoi i Wasanaeth Ambiwlans Cymru fel bodd modd eu gosod ar rwydwaith. Cynhwysir copi o'r wybodaeth yn yr adroddiad i'r Blewyn Glas er gwybodaeth i'r cyhoedd.

*19:361:* Cynllunio -Dim

*19:362: Materion ariannol ac eitemau i'w talu*
*19:362:1: Diweddariad Ariannol – aeth o flaen y Cyngor ac fe'i derbyniwyd gan bawb.*

***Diweddariad Ariannol CCG a'r Gwynt Ebrill 2022***

| Cyfrif | Rhif y cyfrif | Dyddiad | Balans - datganiad | Sieciau heb eu cyflwyno | Arian a dderbyniwyd | Balans gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CCG current | 80405019 | Ebrill 2022 | 16,953.27 | 101320 Swm anhysbys CThEM<br>101319 95.00<br><br>101317 9.12<br><br>101295 10.00<br><br>101333 £90.00<br><br>101334 £71.83<br><br>101335 £302-40<br><br>101336 233.00<br><br>101337 £79.99<br>Cyfanswm 891.34<br><br>(Heb gynnwys swm i'w cadarnhau) | | 16,061.93 |
| CCG savings | 80405035 | Ebrill 2022 | 15,104.51 | | 38c (Budd) 11.3.22 | 15,104.51 |
| Gwynt current | 40052604 | Ebrill 2022 | 1,295.01 | | 100270 250.00 | 1045.1 |
| Gwynt savings | 60849707 | Ebrill 2022 | 6,091.58 | | (Budd)15c 11.3.22 | 6,091.58 |
| Mynwent Llanwrin | 40500941 | Ebrill 2021 | 1,795.84 | | (Budd)4c 11.3.22 | 1,795.84 |

*19:362:2: Taliadau:*

- *Cyflog y Clerc – Telir mis Mawrth y mis nesaf gan ddisgwyl swm terfynol gan y cyfrifwyr*
- *Y Blewyn Glas £10.00 am hysbyseb torri gwair*
- *Gloversure £42.00*

*19:362:3: Nodwyd mai cyfrif mynwent Llanwrin yw'r cyfrif a oedd dan yr enw cyfrif mynwentydd a hynny yn dilyn rhodd gan y ddiweddar Mr. George Evans.*

*19:363: Adroddiadau'r Cynghorwyr*

*19:363:1: Llywodraethwyr Ysgol Glantwymyn Aled Griffiths a Dafydd Evans*

*Cafwyd cyfarfod y Llywodraethwyr yn ddiweddar a nodwyd bod y sefyllfa ariannol yn dda ar hyn o bryd gan ganiatau i'r strwythur staffio cyfredol gyda phedwar dosbarth yn parhau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Newyddion da arall yw bod nifer y disgyblion yn dal i godi.*

*19:363:2: Fforwm y Cleifion Gwenfair Davies*

*Nid yw'r Fforwm wedi cwrdd eto.*

*Nodwyd bod Gwenfair Davies wedi cael ei gwahodd i fod ar grŵp llywio Cynllunio Cymunedau Lleol sy'n cael ei ariannu gan PAVO. Diolch i Andy Rowlands am dynnu sylw at hwn gan fod arian sylweddol ar gael er lles cymunedau o fewn dalgylch Bro Ddyfi. Mae croeso i bentrefi leisio barn. Tynnir sylw grwpiau gofal plant at y gronfa a Phwyllgor Neuadd Glantwymyn. Bydd Gwenfair yn gofyn a fydd modd i rywrai eraill fynychu ar ran y Cyngor ac anfon y manylion ymlaen.*

*19:363: Gohebiaeth*: Dim

19:364: Bocsys ffôn 01650511200 CWM CEIRIG PCO1 CEMMAES ROAD MACHYNLLETH 01650511269 PCO1 CEMMAES ROAD MACHYNLLETH SY20 8JZ
Cafwyd gwahoddiad i brynu'r bocsys ffôn modern hyn. Penderfynwyd cysylltu â BT i ofyn yw eu bwriad ac oes sicrwydd bod y ciosgau hyn yn cael eu digomisiynu a phryd. Gofynnir am adroddiad am y defnydd a wneir o'r ciosgau gan bwysleisio mod hanfodol ydynt mewn argyfwng mewn ardaloedd gwledig lle nad oes signal ffôn

*19:365:* Materion *Priffyrdd a Phontydd*
*Tynnwyd sylw eto at nifer o eitemau heb gael eu datrys:*

- *Pont Comins – Cysylltir eto gydag NMWTRA i fyneigi pryderon bod y goleuadau yno gyhyd. Pan fydd trydydd car yn sefyll mae peryg iddi gael ei daro achos y gornel.*

*Mae eitemau newydd yn cynnwys:*

- *Dibyn peryglus wrth ochr y wtra sy'n mynd i Ffriddfawr, a Gwernbwlch. Mae hwn yn arbennig o beryglus gan fod yr ochr yn tynnu'r cerbydau tuag ato. Gofynnir am rwystrau gan Gyngor Sir Powys.*
- *Stwc dŵr wedi blocio ger Craig Llys Ffryddlan, Comins mae'r dŵr sy'n cronni'n creu lllyn wrth ochr Tynycae*
- *Ffordd Cwmberllan, rhwng Tŷ Nant a Nant y Gaseg wedi gwaethygu a chulhau ac mae ymyl y ffordd wedi torri. Mae trwnc wedi blocio fan hyn hefyd. Mae'r dŵr yn rhedeg i'r ochr isaf a mynd y tu ol i'r gabiens. Gofynnir i rywun o Bowys i ddod i'w harchwilio.*

*19:366: Unrhyw fater Arall.*

- Afancod Mynegwyd siom wrth glywed am gyndynrwydd CNC i gwrdd â'r Cyngor i drafod bwriad CNC i roi trwyddedi i ollwng afancod ym Mro Ddyfi. Teimlwyd bod gan y Cyngor hawl i holi ynghylch y bwriad hwn ar sail nifer o ffactorau. Cysylltir eto a'u gwahodd unwaith eto. Mae'r pryderon yn

cynnwys coed wedi cael ei diffrodi yn yr ardal eisoes yn dilyn dau bâr yn cael eu gollwng neu'n dianc i Gors Dyfi. Mae pryderon y byddant yn cyrraedd afonydd bach megis Cwm Ffrydlan a Thal-y-wern. Mae Pwyllgor Amaethwyr Dyffryn Dyfi wedi mynegi pryderon ers tro gan gyfeirio at y difrod a gwelir yn yr Alban yn ardal yn dilyn prosiect o'r math.

Cysylltir ag Aelodau Seneddol gan ofyn pwy sy'n gyfrifol am y difrod a gofyn iddynt ddod a'r wybodaeth gerbron y cyhoedd. Nodir bod perygl i holl isadeiledd adeiladau gan gynnwys cartrefi a ffyrdd gan arwain at lifogydd yn ogystal â'r effeithiau andwyol ar ffermio. Cynigiwyd hyn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40
Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau 29.4.22

---

**Cyfarfod Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 28.4.22**

Cafwyd cais am arian gan CFfI Bro Ddyfi. Penderfynwyd rhoi £500.00 tuag at gostau hyfforddiant a meithrin sgiliau ar gyfer y Rali. Dymunwyd yn dda i'r ffermwyr ifainc a'u gwahodd i geisio cyngor gan gyn-aelodau'r Clwb. Gwahoddir adborth am y gweithgareddau a sut mae'r clwb yn dod ymlaen yn y Rali. Cynigiwyd hyn gan Huw Williams ac fe'i heiliwyd gan bawb.
Daeth y cyfarfod i ben am 9.45